



Swyddfa Gartref

YMGYNGHORIAD PRIODAS DAN ORFOD

Rhagfyr 2011



Cynnwys

Rhagair y Gweinidog.....	3
Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn.....	4
Cyflwyniad.....	5
Torri Gorchmynion Amddiffyn Priodas Dan Orfod.....	8
A ddylai Priodas Dan Orfod fod yn drosedd?.....	11
Grwpiau sydd wedi eu heffeithio gan yr ymgynghoriad hwn	17
Amserlen a chamau nesaf	18
Gwybodaeth yr ymgynghoriad	19
Crynodeb o gwestiynau ymgynghori	21

Rhagair y Gweinidog



Dylai priodas fod yn un o ddigwyddiadau hapusaf bywyd rhywun. Ond yn frawychus iawn mae miloedd o bobl pob blwyddyn yn cael eu gorfodi i briodi yn erbyn eu hewyllys. Fel mae'r Prif Weinidog wedi dweud, nid yw priodas dan orfod yn llawer mwy na chaethwasiaeth. Rwy'n glir bod priodas dan orfod yn ffurf o drais yn erbyn menywod a dynion. Rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i roi terfyn ar y gamdriniaeth ofnadwy hon.

Mae priodas dan orfod yn digwydd mewn nifer o gymunedau ac mewn sawl diwylliant. Nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw un grefydd nac unrhyw un cenedligrwydd. Nid wyf yn credu y dylai sensitifrwydd diwylliannol deongledig ein hatal rhag gwneud mwy i daclo priodas dan orfod – ni ddylai unrhyw ddiwylliant ystyried ei fod yn dderbyniol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae proffil priodas dan orfod wedi codi ac mae mwy yn cael ei wneud bellach i'w daclo nag erioed o'r blaen. Mae llawer o hyn diolch i waith aruthrol elusennau a sefydliadau eraill yn gweithio yn y maes hwn. Ond gall gweithredu gan y llywodraeth helpu hefyd. Roedd cyflwyniad Gorchmynion Amddiffyn Priodas Dan Orfod, er enghraifft, yn gam positif. Ond nawr rydym eisiau

mynd ymhellach a throeddoli torri Gorchmyn Amddiffyn Priodas Dan Orfod. Bydd hyn yn rhoi mwy o fin i'r arf ataliol. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am farnau ar sut ddylai troeddoli torri Gorchmyn Amddiffyn Priodas Dan Orfod weithio. Hoffem eich barnau ar ba fodel fydd fwyaf effeithiol.

Mae yna gydnabyddiaeth eang bod priodas dan orfod yn weithred ofnadwy. Rwy'n gwybod bod troeddoli yn bwnc sydd ag ystod eang o farnau pendant iawn. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn rhagfarnu'r canlyniad na'r camau y dylem gymryd. Rydym wirioneddol eisiau clywed barnau dioddefwyr a'r rhai sy'n gweithio yn y maes hwn cyn i ni ddod i benderfyniad ar y ffordd orau o amddiffyn pobl agored i niwed.

Un peth ble na ddylid bod amheuaeth arno yw ein bod yn benderfynol y dylem ddiogelu pobl rhag priodas dan orfod a darparu gwell cefnogaeth i ddioddefwyr yr arfer. I wneud hynny, byddwn yn gweithio'n agos gyda sefydliadau sydd eisoes yn weithredol yn y maes hwn a gydag eraill sy'n dod i gysylltiad gyda dioddefwyr a'u teuluoedd. Rwy'n credu, trwy gydweithio, y gallwn wneud priodas dan orfod yn rhywbeth o'r gorffennol.

Y Gwir Anrhydeddus Theresa May AS

Ysgrifennydd Cartref a Gweinidog dros Fenywod a Chydraddoldeb

1. Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

CWMPAS YR YMGYNGHORIAD

Pwnc yr ymgynghoriad:	<p>Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar p'un a fyddai trosedd benodol yn ein helpu i drechu priodas dan orfod ac, os felly, sut y gellid ei ffurfio.</p> <p>Mae gennym hefyd ddiddordeb mewn clywed barnau ar sut y gallem weithredu troseddoli torri'r Gorchmynion Amddiffyn Priodas Dan Orfod sifil.</p>
Cwmpas yr ymgynghoriad hwn:	<p>Mae hwn yn ymgynghoriad i geisio barnau partneriaid allweddol, a phartïon sydd wedi eu heffeithio'n uniongyrchol, yn cynnwys dioddefwyr priodas dan orfod, yr heddlu, awdurdodau lleol, ymarferwyr cyfreithiol, asiantaethau trydydd sector, adrannau eraill y llywodraeth a sefydliadau gyda diddordeb uniongyrchol mewn taclo priodas dan orfod. Mae'r ymgynghoriad hefyd ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref ac rydym yn gwahodd sylwadau gan y cyhoedd.</p>
Cwmpas daearyddol:	<p>Cymru a Lloegr.</p>
Asesiad effaith:	<p>Mae asesiad effaith cam ymgynghori ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref, ynghyd â'r ymgynghoriad hwn.</p>

GWYBODAETH SYLFAENOL

Ar gyfer:	<p>Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i'r cyhoedd</p>
Hyd:	<p>12 Rhagfyr 2011 hyd 30 Mawrth 2012</p>
Ymholiadau ac Ymatebion:	<p>ForcedMarriageConsultation@homeoffice.gsi.gov.uk</p>
Sut arall i gymryd rhan:	<p>Fe fydd yna ymarfer ymgynghori ar-lein. Cysylltwch â'r Swyddfa Gartref (fel uchod) os ydych angen gwybodaeth ar unrhyw fformat arall, megis Braille, print bras neu sain.</p>
Wedi'r ymgynghoriad:	<p>Bydd ymateb i'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Swyddfa Gartref.</p>
Cyrraedd y cam hwn:	<p>Mae'r Swyddfa Gartref wedi gweithio'n agos gydag Adrannau Llywodraeth eraill i archwilio'r materion dan ystyriaeth ac i ddatblygu'r cynigion.</p>
Ymgysylltiad blaenorol:	<p>Cyflawnwyd ymgynghoriad cenedlaethol yn 2005 ar p'un ai i gyflwyno trosedd benodol ar gyfer priodas dan orfod neu beidio. Yn dilyn hyn, penderfynodd y weinyddiaeth flaenorol yn 2006 i beidio gwneud priodas dan orfod yn drosedd benodol.</p>

2. Cyflwyniad

CEFNDIR

Mae priodas dan orfod yn arfer ofnadwy na ellir ei amddiffyn sy'n cael ei gydnabod yn y Deyrnas Unedig ac mewn gwledydd eraill fel math o drais yn erbyn menywod a dynion, camdriniaeth ddomestig, camdriniaeth ddifrifol o hawliau dynol a, ble mae plentyn dan oed dan sylw, yn gamdriniaeth plentyn. Mae'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, Erthygl 16 (2) yn datgan yn glir y dylid 'Mynd i briodas dim ond gyda chydysyniad rhydd a llawn y ddau briod arfaethedig.'

Mae priodas dan orfod yn briodas ble nad yw un neu'r ddau gymar yn cydsynio (neu, yn achos rhai oedolion bregus, nid ydynt yn gallu) i briodi ond yn cael eu gorfodi i wneud. Gall yr orfodaeth gynnwys pwysau corfforol, seicolegol, ariannol, rhywiol ac emosiynol. Mae'r mathau o ymddygiad y mae'r rhai sy'n gorfodi rhywun i briodi yn eu defnyddio, fodd bynnag, yn cwmpasu ystod eang ac yn gyffredinol yn bresennol fel pecyn o ymddygiad, yn aml dros gyfnod o amser. Mae'r ymddygiadau hyn yn amrywio o bwysau emosiynol, gan aelodau agos o'r teulu a'r teulu estynedig, i achosion mwy difrifol, all gynnwys ymddygiad bygythiol, herwgipio, cam-garcharu, trais corfforol, treisio rhywiol ac mewn rhai achosion llofruddiaeth (yn cynnwys yr hyn a elwir yn llofruddiaeth 'urddas'), gyda nifer ohonynt yn droseddau ynddynt eu hunain. Gall dioddefwyr priodas dan orfod fod yn fenywod a dynion ac yn aml maent yn cynnwys plant; a gall y priodasau ddigwydd yn y Deyrnas Unedig neu dramor.

Fe all y teuluoedd dan sylw ddod o amrywiaeth o gefndiroedd diwylliannol a chrefyddol. Fel arfer mae cyflawnwyr yn un neu'r ddau riant neu aelodau ehangach y teulu. Anaml iawn fydd yn un unigolyn yn gweithredu ar ei ben ei hun.

Oherwydd ei natur, nid yw nifer yn sylweddoli eu bod yn ddiodesfwyr camdriniaeth o'u hawliau dynol; ni fydd nifer yn gofyn am gymorth neu bydd eu teulu (yn aml y rhai sy'n cyflawni'r weithred) yn eu hatal rhag gwneud. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd gwybod graddau llawn y broblem.

UNED PRIODAS DAN ORFOD

Mae Uned Priodas Dan Orfod (FMU) y llywodraeth yn darparu cymorth uniongyrchol i ddiodesfwyr yn ogystal â chyflawni rhaglen lawn o weithgaredd allgymorth i ymarferwyr a chymunedau i sicrhau bod pobl yn gweithio gyda diodesfwyr yn gwybod yn iawn sut i ddelio ag achosion o'r fath. Dramor mae'r FMU yn darparu cymorth consylaidd i ddiodesfwyr sy'n wladolion Prydain cyn neu wedi priodas i sicrhau y gallant ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig. Yn ogystal â darparu cefnogaeth uniongyrchol i ddiodesfwyr, mae'r FMU yn sicrhau bod gweithwyr rheng flaen yn derbyn gwybodaeth gyfredol a pherthnasol.

Yn 2010, fe ddarparodd yr FMU gyngor neu gefnogaeth mewn dros 1,700 o achosion, ond fe wyddom nad yw hyn yn adlewyrchu graddfa lawn y gamdriniaeth, a bod nifer fwy o achosion heb eu hadrodd. Amcangyfrifodd ymchwil a gyflawnwyd gan y cyn Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd bod yr amllder cenedlaethol o achosion a adroddwyd o briodas dan orfod yn Lloegr rhwng 5,000 ac 8,000. Mae'r FMU yn ymwybodol o achosion o Affganistan, Gogledd a Dwyrain Affrica, Bangladesh, India, Iran, Irac, Pacistan a Thwrci. Nid yw'r rhestr hon o wledydd yn un hollgynhwysol ac fe all fod nifer o gymunedau eraill ble mae priodas dan orfod yn digwydd.

Er na wyddom faint yw graddfa lawn y broblem, mae nifer yr achosion a adroddir arnynt yn cynyddu pob blwyddyn. Yn 2008, darparodd yr FMU gyngor neu gefnogaeth mewn 1,618 o achosion, a gododd i 1,682 yn 2009 a chyfanswm o 1,735 o achosion yn 2010. Mae hyn wedi adlewyrchu ymdrechion parhaus yr Uned i godi ymwybyddiaeth ymysg diodesfwyr a diodesfwyr posibl bod priodas dan orfod yn annerbyniol a bod cymorth ar gael. Mae'n amlwg bod diodesfwyr yn adnabod yr arwyddion rhybudd yn gynyddol a bod ganddynt bellach yr hyder i gamu ymlaen i ofyn am gymorth. Mae hyn hefyd yn amlwg yn y nifer cynyddol o geisiadau am Orchmynion Amddiffyn Priodas Dan Orfod, gan fod galw wedi bod yn llawer uwch nag y rhagwelwyd (ceir cyflwyniad pellach ar y datrysiaid sifil isod).

CEFNDIR I'R YMGYNGHORIAD

Ar 17 Mai 2011 cyhoeddodd y Pwyllgor Dethol Materion Cartref (HASC) eu Hwythfed Adroddiad yn Sesiwn 2010-12 ar Briodas Dan Orfod¹. Edrychodd yr adroddiad ar yr hyn yr oeddynt yn ei ddehongli i fod yn ddiffyg cynnydd ar daclo materion priodas dan orfod a gwnaeth nifer o argymhellion ar gyfer gweithredu i atal priodas dan orfod ac i ddarparu cefnogaeth i ddioddefwyr, yn cynnwys y dylai'r Llywodraeth ystyried troseddoli priodas dan orfod. Roedd yr adroddiad yn ddilyniant i adroddiad manylach a gyhoeddwyd gan HASC yn 2008², yn tynnu sylw at yr arfer ymosodol o briodi dan orfod, gan amlygu ei raddfa ac awgrymu bod yna wendidau yn yr ymagwedd a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Cyhoeddodd y Llywodraeth ei ymateb ar 19 Gorffennaf 2011.

Ar 10 Hydref 2011, disgrifiodd y Prif Weinidog briodas dan orfod fel 'yr enghraifft fwyaf grotesg o berthynas nad yw'n ddiffuant' ac 'fawr mwy na chaethwasiath'³. Aeth yn ei flaen i gyhoeddi bwriad y Llywodraeth i:

- (i) droseddoli torri Gorchymyn Amddiffyn Priodas Dan Orfod; ac
- (ii) ymgynghori ar wneud gorfodi rhywun i briodi yn drosedd.

SEFYLLFA GYFREITHIOL BRESENNOL

BETH YW'R GYFRAITH AR BRIODI?

Mae'r Ddeddf Priodasau 1949 (fel y'i diwygiwyd) a'r Ddeddf Achosion Priodasol 1973 yn llywodraethu'r gyfraith ar ddilysrwydd priodasau yng Nghymru a Lloegr. Yr isafswm oed pan gall rhywun fynd i briodas ddilys yw 16; er na all rhywun dan 18 oed briodi heb ganiatâd rhiant. Mewn termau cyffredinol, bydd

priodas a gyflawnwyd dramor yn unol â'r ffurfioldeb cywir sy'n ofynnol dan ddeddfau'r wlad honno yn gyffredinol yn cael eu derbyn yng Nghymru a Lloegr, ar yr amod bod gan y ddau barti gymhwyster cyfreithiol i briodi. Mae priodas amlgyrmar gan unrhyw un sy'n preswyllo ym Mhrydain yn ddi-rym. Nid yw priodas yr eir iddi heb gydsyniad yn briodas ddilys; ond ble mae priodas wedi cydymffurfio â'r gofynion ffurfiol a gwirioneddol ar wyneb pethau, fe dybir ei bod yn ddilys oni bai a hyd nes y bydd llys yn barnu ei bod yn ddi-rym.

Mae Adran 12(c) y Ddeddf Achosion Priodasol 1973 yn darparu y bydd priodas yn ddi-rym os bydd 'naill barti i'r briodas heb gydsynio iddo yn ddilys, p'un ai o ganlyniad i orfodaeth, gamgymeriad, meddwl ansicr neu fel arall'. Datganodd y Llys Apêl ('Hirani v Hirani' (1983) 4 FLR 232) mai 'y cwestiwn allweddol ym mhob achos o'r fath yw a yw'r bygythiad, pwysau neu beth bynnag yw, yn ddigon i ddinistrio gwirionedd y cydsyniad ac yn drech nag ewyllys yr unigolyn...' Y sefyllfa gyffredinol yw bod yn rhaid sefydlu gweithdrefnau diddymu (i wneud y briodas yn ddi-rym) o fewn tair blynedd i ddyddiad y briodas. Fodd bynnag, mae adran 13(4) y Ddeddf Achosion Priodasol 1973 yn darparu ble dygir achos i ddiddymu ar un o nifer o seiliau, yn cynnwys ar sail adran 12(c), gall y llys roi caniatâd i gychwyn achos diddymu wedi'r cyfnod dod i ben o dair blynedd o ddyddiad y briodas os yw'r barnwr yn fodlon bod y deisebwr wedi, ar ryw adeg o fewn y cyfnod hwnnw, dioddef o afiechyd meddyliol o fewn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983, a bod y barnwr yn ystyried yn holl amgylchiadau'r achos y byddai'n deg i ganiatáu cychwyn yr achos. Gall hyn fod yn berthnasol mewn achosion yn ymwneud ag oedolion analluog.

BETH YW'R GYFRAITH AR BRIODAS DAN ORFOD?

Mae Deddf Priodas Dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007 yn darparu datrysiad sifil penodol i atal priodi dan orfod ac i gynorthwyo dioddefwyr ble mae priodas eisoes wedi digwydd – y Gorchymyn Amddiffyn Priodas Dan Orfod (FMPO). Rhwng Tachwedd 2008 pan ddaeth Deddf 2007 i rym a Mehefin 2011, cofnodwyd 339 o orchmynion.

1 ADRODDIAD Priodas Dan Orfod, 17 Mai 2011 (Wythfed Adroddiad, Sesiwn 2010-11, HC 880) <http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201012/cmselect/cmhaff/880/88002.htm>

2 Adroddiad 20 Mai 2008: <http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200708/cmselect/cmhaff/263/26302.htm>

3 <http://www.number10.gov.uk/news/prime-ministers-speech-on-immigration/>

Mae FMPO yn orchymyn allai gynnwys unrhyw nifer o ddarpariaethau fel fo'r llys yn ystyried i fod yn angenrheidiol i amddiffyn unigolyn sydd dan risg o briodas orfodol neu sydd eisoes wedi ei orfodi i briodi. Gallai hyn gynnwys darpariaethau i beidio bygwth, aflonyddu ar neu ddefnyddio grym; i ildio pasbort unigolyn neu unrhyw ddogfen teithio arall; ac i beidio mynd i gytundeb ar ddyweddiad neu briodas y Sawl sydd i'w Amddiffyn (y dioddefydd), p'un ai'n sifil neu grefyddol, yn y Deyrnas Unedig neu dramor.

Ar hyn o bryd fe ddelir â thoriad o'r gorchymyn fel dirmyg llys sifil gyda chosb o ddirwy neu ddedfryd o hyd at ddwy flynedd o garchar.

Mae'r Llywodraeth nawr wedi ymroi i wneud torri'r FMPO yn dramgwydd troseddol – trafodir hyn ym mhennod 3.

DATRYSIADAU SIFIL I BLANT AC OEDOLION BREGUS

Mae plentyn yn golygu rhywun sydd heb gyrraedd eu 18fed pen blwydd ac yn cynnwys pobl ifanc 16 i 17 oed sy'n byw'n annibynnol fel y diffiniwyd yn Neddf Plant 1989 a 2004. Mae gan blant sydd dan risg o gael eu gorfodi i briodi hawl i'r amddiffyniad statudol a roddir iddynt dan agweddau cyfraith gyhoeddus Deddf Plant 1989. Yng Nghymru a Lloegr, mae adran 31 Deddf Plant 1989 yn darparu ar gyfer gorchymynion gofalu ac amddiffyn ar y cais gan awdurdod lleol, i osod plentyn dan 17 oed dan ofal yr awdurdod lleol hwnnw.

Tra bod gorchymyn o'r fath yn ei le, ni all unrhyw un fynd â'r plentyn hwnnw o'r Deyrnas Unedig heb ganiatâd pob unigolyn gyda chyfrifoldeb rhiant, yn cynnwys yr awdurdod lleol. Mae'r Ddeddf Plant yn rhoi dyletswyddau a grymoedd i awdurdodau lleol parthed darparu cefnogaeth a llety i bobl ifanc mewn amgylchiadau ble maent mewn angen, neu ble byddai'n helpu diogelu lles plentyn.

Mae heddlu sydd wedi eu lleoli mewn meysydd awyr wedi defnyddio darpariaethau Gorchymyn Amddiffyn Brys (EPO) adran 44 y Ddeddf Plant yn llwyddiannus

i atal mynd â phlentyn o'r Deyrnas Unedig i ddibenion priodas dan orfod. Yn 2010 gwnaethpwyd dros 1,000 EPO, er nad yw'n bosibl nodi faint a ddefnyddiwyd yn benodol ar gyfer y diben hwn.⁴ Gall yr heddlu hefyd ddefnyddio eu grymoedd dan adran 46 y Ddeddf Plant i symud plentyn i lety addas os oedd gan swyddog yr heddlu achos rhesymol i gredu y byddai'r plentyn fel arall yn debygol o ddiodeff niwed arwyddocaol pellach.

Ble fo unigolyn heb, neu fod rheswm dros gredu nad oes ganddynt, y gallu meddyliol i gydsynio i briodas, yna gellir gwneud cais dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i'r Llys Amddiffyn all wneud gorchymynion, er enghraifft, yn gwahardd tynnu allan o'r awdurdodaeth neu drefnu priodas yr unigolyn. Hyd yn oed os oes gan yr unigolyn y gallu meddyliol, ond ei fod yn 'oedolyn agored i niwed'⁵, dan rai amgylchiadau gellir gwneud cais i'r Uchel Lys i arfer ei rym dan ei awdurdodaeth gynhenid i sicrhau bod yr unigolyn yn arfer ewylllys rhydd yn y penderfyniadau maent yn eu gwneud.

Nid oes unrhyw dramgwydd troseddol penodol yng Nghymru a Lloegr o 'orfodi rhywun i briodi'. Fodd bynnag, gall y mathau o ymddygiadau sy'n amlwg wrth orfodi rhywun i briodi gynrychioli amrywiaeth o droseddau presennol, yn cynnwys rhai difrifol iawn. Rydym yn trafod hyn yn fanylach ym mhennod 4.

4 Court Statistics Quarterly Q2 2011 bulletin – cyhoeddwyd 29 Medi 2011 <http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/statistics-and-data/courts-and-sentencing/family-matters-tables-chp2-2010.xls>

5 Mae oedolyn agored i niwed yn rhywun sy'n 18 oed neu'n hŷn: Sydd, neu a allai fod, angen gwasanaethau cymunedol oherwydd oed, salwch neu anabled meddyliol neu gorfforol; Sydd, neu a allai fod, yn methu gofalu amdano ef neu hi ei hun, neu'n methu ei amddiffyn ef neu ei hamddiffyn hi ei hun yn erbyn niwed neu ymelwad arwyddocaol ('No Secrets', Swyddfa Gartref/Adran Iechyd, 2002)

3. Torri Gorchmynion Amddiffyn Priodas Dan Orfod

Ar hyn o bryd nid yw torri Gorchmynion Amddiffyn Priodas Dan Orfod (FMPO) yn dramgwydd troseddol. Delir â thoriad fel dirmyg llys sifil a gall y llysoedd sirol gyflwyno dedfryd gadwraethol o hyd at ddwy flynedd. Pe byddai'r FMPO yn cael ei gyhoeddi yn cynnwys grym arestio, gallai swyddog yr heddlu arestio rhywun yr oedd ganddynt achos rhesymol dros amau eu bod yn torri unrhyw ddarpariaethau o'r FMPO. Pe byddai'r FMPO wedi ei gyhoeddi heb rym arestio, byddai angen i'r ymgeisydd wneud cais i'r llys am warant i arestio ac i'r unigolyn gael ei ddwyn yn ôl i'r llys i'w draddodi ble bydd y llys yn penderfynu p'un a oedd toriad neu beidio, ac os felly, pa gosb i'w gweinyddu am anufuddhau gorchmynion y llys.

ADRODDIAD PWYLLGOR DETHOL AR FATERION CARTREF AR BRIODAS DAN ORFOD

Cyhoeddodd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref (HASC) adroddiad dilynol⁶ ym Mai 2011 ers eu hadroddiad cychwynnol ar Drais Domestig, Priodas Dan Orfod a Thrais Seiliedig ar Urddas a gyhoeddwyd yn 2008.

Ar y mater o FMPOs, awgrymodd y Pwyllgor bod yna ddiffygion yn y broses o fonitro cydymffurfriad gyda gorchmynion wedi ei wneud a diffyg gweithredu effeithiol yn achos toriadau. Dim ond un unigolyn sydd wedi derbyn dedfryd o garchar yn ymwneud â thorri gorchmynion.

Argymhellodd y Pwyllgor bod y Llywodraeth yn ymchwilio i sut mae gorchmynion yn cael eu monitro; y lefel gwirioneddol o doriadau a'r ymateb barnwrol i doriadau a gofnodwyd. Nododd yr adroddiad: 'Nid yw'n glir o gwbl bod y Ddeddf yn gwbl effeithiol fel arf i ddiogelu unigolion rhag priodas dan orfod a rhag ôl-ffeithiau gan aelodau o'r teulu.'

Nododd y Llywodraeth tra bod y Pwyllgor wedi rhoi sylw ar y ffaith mai dim ond pum toriad oedd wedi ei

gofnodi, gan awgrymu nad oedd y ddeddfwriaeth yn effeithiol, mai dim ond os oedd ymgeisydd yn dod â'r mater yn ôl i'r llys ar gyfer traddodi oedd y llysoedd yn ymwybodol o doriad.

Derbyniodd Ymateb y Llywodraeth⁷ (Gorffennaf 2011) ei bod yn amserol i adolygu rhai agweddau penodol o'r ddeddfwriaeth eto, yn arbennig y mater o doriadau. Yna roedd y Llywodraeth eisiau ystyried troseddoli toriadau unwaith yr oedd ddeddfwriaeth yr Alban (sy'n gwneud torri gorchmynion o'r fath yn dramgwydd troseddol ac a ddaeth i rym ar 28 Tachwedd 2011), wedi eu gwerthuso.

Fel y cyfeiriwyd ato uchod ers gweithrediad y Ddeddf Priodas Dan Orfod (Diogelu Sifil) 2007 yn 2008, cofnodwyd pum achos o wrandawriad toriad. Er y gwnaethpwyd rhai gorchmynion eraill mewn rhai achosion, er enghraifft, ymestyn y gorchmynion gwreiddiol, ni phrofwyd toriad yn yr un ohonynt.

Yn amlwg, mae angen i ni edrych ar fonitro a chofnodi toriadau presennol o'r FMPOs. Mae'n bosibl bod mwy o daliadau yn derbyn sylw nad sy'n cael eu cofnodi. Roedd yr achos y cyfeiriwyd ato gan yr HASC a ddenodd dedfryd warchodol yn achos a wrandawyd yn yr Old Bailey yn Chwefror 2011 a ddenodd gryn dipyn o sylw yn y cyfryngau. Roedd Lydia Erhide wedi gwrthod llofnodi dogfennau i ganiatáu i'w mab gael dychwelyd yn dilyn honiadau iddo gael ei ddwyn o'r Deyrnas Unedig i Nigeria yn erbyn ei ewyllys. Fe'i dedfrydwyd i wyth mis o garchar am 'doriad amlwg' o orchymyn yr Uchel Lys (FMPO) i gydweithredu i sicrhau dychweliad ei mab yn ei arddegau.

Rydym hefyd angen asesu sut mae'r asiantaethau statudol a'r sector gwirfoddol sydd wedi gwneud ceisiadau trydydd parti yn monitro cydymffurfriad a phan fydd toriad yn digwydd nad yw'n cael ei ddwyn yn ôl i'r llys, y rhesymau dros hyn. Gwnaethpwyd ymroddiad i adolygu'r ddeddfwriaeth yn nhermau troseddoli toriadau mewn ymateb i'r Adroddiad HASC.

6 ADRODDIAD Priodas Dan Orfod, 17 Mai (Wythfed Adroddiad, Sesiwn 2010-11, HC 880) <http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201012/cmselect/cmhaff/880/88002.htm>

7 <http://www.official-documents.gov.uk/document/cm81/8151/8151.asp>

OPSIYNAU AR GYFER Y MODEL TORRI

Mae'r Ddeddf Priodas Dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007 wedi ei fodelu ar y darpariaethau a sefydlwyd yn y Ddeddf Cyfraith Deuluol 1996 ar gyfer gwaharddebau trais domestig a gorchmynion peidio ag ymyrryd. Fe greodd Deddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004 y dramgwydd troseddol o dorri gorchmyn peidio ag ymyrryd. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu defnyddio'r model ar gyfer toriadau o orchmynion peidio ag ymyrryd ar gyfer toriadau o FMPOs.

TORRI GORCHMYNION TRAIS DOMESTIG A PHEIDIO AG YMYRRYD.

Ar 1 Gorffennaf 2007, daeth y Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004 i rym. Fe addasodd y ddarpariaeth hon adran 42A Deddf Cyfraith Deuluol 1996 trwy greu trosedd droseddol o dorri gorchmyn sifil peidio ag ymyrryd a gaffaelwyd dan adran 42(2) neu adran 45(1) (ceisiadau ex parte) Deddf Cyfraith Deuluol 1996.

Mae'r drosedd torri yn un y gellir dwyn achos yn ei herbyn gydag uchafswm cosb ar euogfarn o bum mlynedd o garchar, neu ddirwy, neu'r ddau. Yn y llys ynadon, mae'r uchafswm statudol yn berthnasol, sef chwe mis neu ddirwy o £5,000, neu'r ddau.

Mae gan yr ymgeisydd i'r gorchmyn gwreiddiol ddewis o'r mecanwaith i ddelio â thoriad gorchmyn peidio ag ymyrryd o hyd. Gallant naill ai alw'r heddlu i ddelio â'r toriad o fewn yr awdurdodiad troseddol, neu gallant wneud cais yn y llys sirol gwreiddiol (awdurdodaeth deuluol) i gael delio â'r toriad fel dirmyg llys sifil gyda chosb warchodol bosibl.

Dygydd achos torri yn tua 11% o'r gorchmynion peidio ag ymyrryd a wnaed yn 2009 a 2010. O'r rhai a gafwyd yn euog, ar gyfartaledd, rhoddwyd dedfryd warchodol i 20% ohonynt (cyfartaledd o 4 mis) a chafodd 16% ohonynt ddirwy.

Mae'r ddwy awdurdodaeth yn gwbl ar wahân: os yw rhywun wedi ei euogfarnu o'r toriad mewn llys troseddol, ni ellir eu cosbi am ddirmyg sifil, ac fel arall.

MODEL YR ALBAN

Gweithredwyd Deddf Priodas Dan Orfod ac ati (Amddiffyn ac Awdurdodaeth) (Yr Alban) 2011 ar 28 Tachwedd 2011. Mae'r cosbau troseddol ar gyfer torri dan fodel yr Alban ychydig yn wahanol i ddeddfwriaeth Cymru a Lloegr ar orchmynion peidio ag ymyrryd. Uchafswm y ddeddfryd o garchar ar gyfer torri dan y model hwn yw dwy flynedd yn hytrach na'r pum mlynedd ar gyfer torri gorchmyn peidio ag ymyrryd.

Mae rhywun a geir yn euog o drosedd dan Ran 1 Adran 9 (1) yn agored –

- (a) Ar euogfarn ddiannod, i garchariad am gyfnod o ddim mwy na 12 mis, hyd at ddirwy o ddim mwy na'r uchafswm statudol, neu'r ddau.
- (b) Ar euogfarn neu dditiad, i garchariad am gyfnod o ddim mwy na 2 flynedd, i ddirwy, neu'r ddau.

Mae yna sawl tebygrwydd rhwng model yr Alban a gorchmynion peidio ag ymyrryd. Yn debyg i orchmynion peidio ag ymyrryd, ble fo unigolyn wedi ei euogfarnu o drosedd am dorri gorchmyn yn wybyddus a heb esgus rhesymol, ni ellir cosbi'r ymddygiad troseddol fel dirmyg llys yn defnyddio cosbau sifil gan ei fod yn amodol i gosbau troseddol arferol, ac fel arall. Ni ellir cosbi unigolyn ddwywaith am yr un ymddygiad – cyfeirir at hyn fel 'erlyniad dwbl'.

Yn y ddau fodel, mae'n drosedd i dorri unrhyw ddarpariaeth yn y gorchmyn gwreiddiol. Yn achos gorchmynion peidio ag ymyrryd, nid oes angen gwarant i arestio troseddwr gan fod y gorchmyn yn cynnwys yr Hysbysiad Cosb safonol. Yn yr un modd, ym model yr Alban, gall cwnstabl arestio unrhyw un heb warant os yw'r cwnstabl yn credu'n rhesymol ei fod yn cyflawni, neu wedi cyflawni, y drosedd honno.

CWESTIYNAU

Rhowch wybodaeth atodol i gefnogi eich ymateb.

- A ydych chi'n credu y dylai'r model ar gyfer torri FMPOs ddilyn yr un ar gyfer torri gorchmynion peidio ag ymyrryd? Yn benodol:
 - a ddylai fod yn drosedd i dorri unrhyw/yr holl ddarpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y gorchymyn; heb fod angen unrhyw rym arestio;
 - os yw'r CPS yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i ddarparu gobaith realistig o euogfarn droseddol, neu os nad yw'r erlyniad er lles y cyhoedd, a ddylai dioddefwyr barhau i gael y dewis i ddychwelyd yr achos i draddodi yn y llys sifil; a
 - pa gosb ddylai fod yn gymhwysol ar gyfer yr uchafswm dedfryd am dorri FMPO (yng Nghymru a Lloegr mae torri gorchymyn peidio ag ymyrryd neu orchymyn ataliol ar hyn o bryd yn denu uchafswm dedfryd o bum mlynedd)?
- A ydych chi'n meddwl bod yna fodel arall, e.e. yn yr Alban neu unrhyw awdurdodaeth arall, a fyddai'n fwy addas?
- A ydych yn credu y dylai ymatebwyr eraill a enwir a oedd yn gwybod bod gorchymyn wedi ei dorri ond na wnaeth ddim hefyd fod yn atebol am erlyniad neu dorri gorchymyn? Esboniwch eich ateb. Os felly, pa lefel o gynhwysiad ddylai ddenu erlyniad o'r fath? Pa raddfa o gosbau a ddylid eu defnyddio?

Efallai y bydd yr esiampl ganlynol yn eich helpu i lunio eich ymateb.

SENARIO

Mae mam y dioddefydd yn ymwybodol bod ei gŵr a mab wedi mynd â'i merch i Bacistan i'w gorfodi i briodi. Mae hefyd yn ymwybodol bod un o'r amodau sydd wedi eu cynnwys ar y Gorchymyn Amddiffyn Priodas Dan Orfod yn atal ymatebwyr rhag mynd â'r dioddefydd allan o'r Deyrnas Unedig i briodi. Mae'r fam hefyd wedi ei henwi fel ymatebydd ar y gorchymyn. Fodd bynnag, nid yw'n hysbysu'r heddlu nac unrhyw awdurdod arall o fwriad aelodau ei theulu i orfodi ei merch i briodi.

- Pa fecanweithiau, os o gwbl, ydych chi'n teimlo fyddai'n cynorthwyo dioddefwyr a thystion, yn arbennig yr ifanc, i ddatgelu torri gorchymyn? Esboniwch eich ateb.
- A ydych chi'n teimlo bod angen sicrhau unrhyw fecanweithiau eraill, yn ogystal â'r mesurau arbennig presennol (e.e. recordio datganiadau fideo, cysylltiadau byw, sgriniau) yn y llys i helpu dioddefwyr a thystion i briodas dan orfod, yn arbennig yr ifanc, trwy'r broses gyfiawnder droseddol unwaith y bydd achosion erlyniad troseddol wedi cychwyn? Os felly, esboniwch eich ateb, gan roi enghreifftiau o'r mathau o fecanweithiau ac adnoddau sydd eu hangen.

4. A ddylai priodas dan orfod fod yn dramgwydd troseddol?

Mae'r llywodraeth yn ceisio barnau ar a ddylai gorfodi i rywun briodi fod yn dramgwydd troseddol neu a yw'r trefniadau presennol yn darparu amddiffyniad digonol.

Mae gennym hefyd ddiddordeb mewn barnau ar beth ellir ei wneud i atal priodi dan orfod rhag digwydd.

Mae yna ddadleuon pendant dros ac yn erbyn gwneud priodi dan orfod yn dramgwydd troseddol. Cyflwynir crynodeb o'r dadleuon isod:

DADLEUON I GEFNOGI TROSEDD NEWYDD

Byddai trosedd newydd yn cael effaith ataliol ac yn anfon neges glir (yn ddomestig a thramor) nad yw gorfodi rhywun i briodi yn dderbyniol.

Mae'r Llywodraeth wedi bod yn glir bod priodas dan orfod yn gamdriniaeth na ellir ei amddiffyn o hawliau dynol, yn fath o drais yn erbyn menywod a dynion a, ble fo plentyn dan oed dan sylw, yn gamdriniaeth o blentyn. Ond mae angen i ni anfon neges gryfach, gliriach i gymunedau ac yn rhyngwladol na fydd priodi gorfodol yn cael ei oddef yn y wlad hon, ac y bydd canlyniadau i'r rhai sy'n cyflawni'r math hwn o gamdriniaeth. Rydym yn ymwybodol bod nifer o wledydd, er enghraifft Denmarc, bellach wedi troseddoli priodas dan orfod a byddwn yn edrych ar eu profiadau yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Gallai trosedd newydd rymuso pobl ifanc i herio eu rhieni neu deuluoedd.

Dylai'n dyletswydd gyntaf fod i amddiffyn y rhai sydd dan risg o briodas dan orfod. Gallai creu trosedd benodol o briodas dan orfod nid yn unig weithredu fel ataliaeth i deuluoedd allai gyflawni'r math hwn o gamdriniaeth, ond gallai hefyd roi mwy o deimlad i ddioddefwyr bod yr hyn sy'n digwydd iddynt yn anghywir oherwydd ei fod yn rhywbeth sydd yn erbyn y gyfraith. Gallai hyn ei gwneud yn haws i ddioddefwyr herio eu rhieni a theulu ehangach.

Byddai trosedd newydd yn ei gwneud yn haws i'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, a gwasanaethau iechyd i nodi bod unigolyn wedi ei orfodi i briodi gan nad yw deddfwriaeth bresennol wedi ei gysylltu mor hwylus gyda phriodasau dan orfod.

Gan nad oes trosedd o "orfodi rhywun i briodi yn erbyn eu hewyllys" i bennu a yw'r weithred wedi digwydd, gellir ystyried nifer o droseddau. Gellid dadlau y gallai hyn fod yn gymhleth ac yn ddryslyd i'r rhai allai adnabod priodas dan orfod ond na fyddai'n adnabod bod y drosedd a gyflawnwyd yn rhywbeth arall yn llwyr (h.y. blacmel/aflonyddu ac ati). Gallai trosedd benodol egluro materion i'r cyrff hyn fel eu bod yn gwbl ymwybodol o pryd a sut y gallant ymyrryd ac felly darparu ymateb mwy effeithiol i ddioddefwyr posibl a dioddefwyr priodas dan orfod.

Byddai trosedd newydd yn darparu cosb i'r cyflawnwr.

Gellid euogfarnu'r rhai sydd wedi gorfodi neu gymryd rhan mewn gorfodi unigolyn i briodi o drosedd priodas dan orfod benodol a'u dedfrydu'n unol â hynny os y'u ceir yn euog. Byddai dedfrydu cadarn yn cael ei ystyried i fod yn ataliad trwy arddangos bod pobl yn cael eu dal yn atebol am eu gweithredoedd.

DADLEUON I GEFNOGI CADW'R TREFNIADAU PRESENNOL

Gallai dioddefwyr roi'r gorau i ofyn am gymorth ac/neu wneud cais am ddatrysiadau sifil oherwydd ofn y bydd eu teuluoedd yn cael eu herlyn ac/neu oherwydd canlyniadau erlyniadau sy'n methu.

Mae'n gam mawr i rywun gymryd unrhyw fath o weithredu cyfreithiol yn erbyn rhieni neu deulu uniongyrchol arall. Mae yna bryder y byddai hyd yn oed mwy o bwysau i beidio adrodd achosion o briodas dan orfod neu ymdrechion ar briodas dan orfod os oedd yr adroddwr yn meddwl y byddai aelodau o'r teulu yn derbyn euogfarn droseddol. Byddai hefyd angen profi'r cyhuddiad ei hun i'r safon droseddol o brawf – 'tu hwnt i amheuaeth resymol'. Mae hefyd yn bosibl y byddai troseddoli yn effeithio ar geisiadau am ddatrysiadau sifil sydd ar gael dan y Ddeddf Priodas Dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007.

Gallai rhieni fynd â'u plant dramor a'u gorfodi i briodi neu eu cadw yno, i osgoi erlyniad yn y Deyrnas Unedig.

Mae yna bryder y gallai mwy o deuluoedd fynd â'u plant dramor pan maent yn iau a'u gorfodi i briodi yno, gan gyflawni'r troseddau hyn dramor ac osgoi achos yn y Deyrnas Unedig.

O'r 116 o geisiadau a wnaed am FMPO yn 2010, roedd 21 o ymgeiswyr eisoes dramor pan wnaethpwyd y cais (18%).

Risg cynyddol y gallai erlyniad, neu fygythiad o erlyniad, ei gwneud yn anoddach i ddiodefwyr gymodi gyda'u teuluoedd.

Roedd pryder hefyd y gellid cael effaith negyddol ar ddiodefwyr allai deimlo bod y system gyfiawnder wedi eu methu, os na ellid dwyn achos neu os byddai'r diffynnydd yn cael ei ryddfarnu. Mae yna hefyd y mater bod y broses droseddol yn cymryd mwy o amser ac y gallai diodefwyr dynnu yn ôl dan bwysau gan eu teulu. Er y gallai diodefwyr fod â'r opsiwn i ddilyn y llwybr gorchymyn amddiffyn, gallai canlyniadau'r achos cyfreithiol a fethodd parthed teulu a chymuned olygu nad oes ganddynt yr hyder i barhau i fynd ar drywydd datrysiad sifil.

Gallai'r ymddygiad a droseddolir orgyffwrdd â throseddau presennol.

Mae yna eisoes dramgwyddau troseddol sy'n cael eu hystyried gan y CPS parthed priodas dan orfod (a sefydlir yn opsiwn 1). Gallai creu trosedd benodol achosi dyblygiad gyda'r tramgwyddau troseddol hynny sydd eisoes yn bodoli. Mae'r llywodraeth yn ymroddedig i osgoi tramgwyddau troseddol diangen sy'n arwain at ddryswch ar ran ymarferwyr a'r cyhoedd.

Yn y naill awdurdodaeth, troseddol neu sifil, mae'n bwysig bod y diodefwyr, tystion ac ymgeiswyr yn ceisio ac yn cael mynediad at gyngor effeithiol ynglŷn â'r opsiynau sydd ar gael a'r deilliannau tebygol. Bydd achosion ble mae'r diodefwydd yn dewis peidio gweithredu'n ffurfiol yn y llys ond yn gallu datrys y

sefyllfa, neu ei dianc, gyda chymorth cefnogaeth o'r tu allan. Rhaid i'r gefnogaeth hon, p'un a yw wedi ei darparu gan y trydydd sector neu asiantaethau statudol, gynnwys prosesau asesiad risg priodol a chynllunio diogelwch digonol, fel y sefydlwyd yn y Canllawiau Ymarfer Amlasiantaethol: Delio ag Achosion Priodas Dan Orfod.⁸

8 <http://www.fco.gov.uk/resources/en/pdf/3849543/forced-marriage-guidelines09.pdf>

OPSIWN 1 – PARHAU GYDA'R TREFNIADAU CYFREDOL DAN GYFRAITH DROSEDDOL BRESENNOL

Mae'r CPS yn ystyried ystod eang o droseddau wrth adolygu achos o briodas dan orfod. Yn ystod 2010-2011, erlynwyd 49% o achosion a gyhuddwyd mewn cyd-destun priodas dan orfod yn llwyddiannus.⁹ Mae'r CPS bellach yn llumanu trais 'seiliedig ar urddas' (HBV) a phriodas dan orfod. Mae nifer o'r elfennau allweddol o sut olwg sydd ar "drosedd priodas dan orfod" eisoes wedi eu cynnwys mewn deddfwriaeth. Er enghraifft:

HERWGIPIO

Mae herwgipio yn drosedd cyfraith gwlad a gyflawnir trwy fynd â neu gludo rhywun ymaith gan rywun arall, trwy dwyll neu drwy orfodaeth, heb ganiatâd y sawl sy'n cael ei gludo i ffwrdd, a heb esgus cyfreithiol. Y gosb uchaf yw carchar am oes. Mae angen caniatâd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus cyn y gellir cychwyn erlyniad parthed herwgipio os y'i cyflawnwyd yn erbyn plentyn dan 16 oed gan unigolyn sy'n 'gysylltiedig' â'r plentyn o fewn yr ystyr yn adran 1 Deddf Herwgipio Plant 1984.

CAM-GARCHARU

Mae cam-garcharu dan gyfraith gwlad yn ataliad anghyfreithiol a bwriadol neu anystyriol o ryddid y dioddefydd i symud o le penodol. Nid yw atal plentyn o fewn parth disgyblaeth rhieniol rhesymol yn anghyfreithiol. Mae'n drosedd cyfraith gyffredin, gyda chosb o ddirwy neu garchariad, neu'r ddau. Y gosb uchaf yw carchar am oes.

⁹ Mae data CPS ar gael trwy ei System Rheoli Achosion (CMS) a System Rheoli Gwybodaeth (MIS) cysylltiedig. Mae'r CPS yn casglu data i gynorthwyo yn rheolaeth effeithiol ei swyddogaethau erlyn. Nid yw'r CPS yn casglu data sy'n cyfateb i ystadegau swyddogol fel y diffiniwyd yn y Ddeddf Ystadegau a Chofrestrriad 2007. Mae'r data wedi ei gasglu o system TG gweinyddol y CPS sydd, fel gydag unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn amodol i wallau posibl gyda chofnodi a phrosesu data. Mae'r ffigurau yn ddarpariaethol ac yn amodol i newid wrth gofnodi mwy o wybodaeth gan y CPS

Mae'r ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â throsedd a phlisma yn cael eu cynnal gan y Swyddfa Gartref a'r ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â dedfrydu, achosion llys troseddol, dod â throseddwr i'r llys, y llysoedd a'r farnwriaeth yn cael eu cynnal gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

HERWGIPIO PLENTYN

Mae Deddf Herwgipio Plentyn 1984 (Deddf 1984) yn ei gwneud yn drosedd dan adran 1 y Ddeddf honno i rywun sy'n 'gysylltiedig' gyda phlentyn dan 16 oed i gymryd neu anfon y plentyn allan o'r Deyrnas Unedig heb gydsyniad priodol. Byddai hyn yn berthnasol, er enghraifft, i achos ble mae un rhiant yn mynd â phlentyn allan o'r Deyrnas Unedig heb ganiatâd y rhiant arall sydd â gorchymyn preswyllo o'u plaid mewn grym parthed y plentyn. Mae angen caniatâd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus cyn y gellir cychwyn erlyniad am drosedd dan adran 1 Deddf 1984. Mae hefyd yn drosedd i bobl eraill (h.y. pobl nad ydynt yn 'gysylltiedig' gyda'r plentyn) heb awdurdod cyfreithiol neu esgus rhesymol i gymryd neu gadw plentyn dan 16 oed, er mwyn mynd â'r plentyn neu gadw'r plentyn allan o awdurdod cyfreithiol unrhyw un sydd â rheolaeth gyfreithiol o'r plentyn. Gellir cosbi troseddau sy'n mynd yn groes i Ddeddf 1984 gyda hyd at 7 mlynedd o garchar.

YMOSODIADAU

Mae gweithredoedd a bygythiadau o drais anghyfreithiol uniongyrchol yn cyfateb i ymosodiad. Mae yna ystod eang o wahanol droseddau i ddelio ag 'ymosodiad' yn ddibynnol ar yr anaf a achoswyd. Efallai mai'r drosedd berthnasol fydd ymosodiad cyffredin neu guro dan adran 39 y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (sydd ag uchafswm cosb o chwe mis o garchar, neu ddirwy lefel 5, neu'r ddau), ymosodiad yn achosi niwed corffol gwirioneddol (all gynnwys anaf seiciatrig) dan adran 47 y Ddeddf Troseddau yn erbyn yr Unigolyn 1861 (uchafswm dedfryd o bum mlynedd o garchar neu ddirwy anghyfyngedig, neu'r ddau), anafu anghyfreithiol dan adran 20 y Ddeddf Troseddau yn erbyn y Person 1861 (uchafswm dedfryd pum mlynedd o garchar neu ddirwy anghyfyngedig, neu'r ddau) ac anafu gyda'r bwriad o achosi niwed corfforol difrifol dan adran 18 y Ddeddf Troseddau yn erbyn y Person 1861 (uchafswm cosb carchar am oes).

BYGYTHIADAU I LADD

Mae unigolyn sydd, heb esgus cyfreithiol, yn gwneud bygythiad i unigolyn arall i ladd yr unigolyn hwnnw neu drydydd person, gan fwriadu y byddai'r unigolyn

arall yn ofni'r ffaith y byddai'r bygythiad yn cael ei gyflawni, yn euog o drosedd dan adran 6, y Ddeddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 ac yn atebol i uchafswm cosb o 10 mlynedd o garchar. Nid oes rhaid i'r bygythiad fod yn uniongyrchol; felly byddai'r bygythiad 'os wyt ti'n gwneud X/ddim yn gwneud X, byddaf yn dy ladd' wedi ei gynnwys dan y ddeddfwriaeth hon.

TROSEDDAU TREFN GYHOEDDUS

Fe greodd y Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 (Deddf 1986) amrywiol droseddau. Er enghraifft, y drosedd o affrae (gweler adran 3 Deddf 1986). Mae rhywun yn cyflawni affrae os ydynt yn defnyddio neu'n bygwth trais anghyfreithiol tuag at rywun arall a bod eu hymddygiad yn un a fyddai'n achosi i unigolyn o gadernid rhesymol sy'n bresennol yn y fan i ofni ynglŷn â'u diogelwch (y gosb uchaf yw 3 mlynedd neu ddirwy neu'r ddau). Gallai'r adrannau canlynol o Ddeddf 1986 hefyd fod yn berthnasol: adrannau 4 (ofn neu gythruddo trais – uchafswm cosb o chwe mis neu ddirwy lefel 5 neu'r ddau), 4A (aflonyddu, dychryn neu drallod bwriadol – uchafswm cosb o chwe mis neu ddirwy lefel 5 neu'r ddau), a 5 (aflonyddu, dychryn neu drallod – uchafswm cosb dirwy lefel 3).

AFLONYDDU (YN CYNNWYS STELCIAN)

Bydd trosedd dan Adran 2 y Ddeddf Amddiffyn Rhag AFLonyddu 1997 (Deddf 1997) wedi ei chyflawni os bydd rhywun yn cyflawni cyfres o ymddygiad sy'n cyfateb i aflonyddu ar rywun arall ac y mae'r troseddwr yn gwybod neu fe ddylai wybod ei fod yn cyfateb i aflonyddu ar rywun arall. Rhaid i 'gyfres o ymddygiad' gynnwys yn achos ymddygiad parthed un unigolyn, ymddygiad ar o leiaf ddau achlysur, yn achos ymddygiad parthed dau neu fwy o unigolion, ymddygiad ar o leiaf un achlysur parthed pob un o'r unigolion hyn. Y gosb uchaf yw 6 mis o garchar. Os yw'r gyfres o ymddygiad yn achosi i rywun arall ofni, ar o leiaf ddau achlysur, y defnyddir trais yn eu herbyn, efallai y cyflawnwyd trosedd dan Adran 4 o Ddeddf 1997, gan ddenu cosb uchaf o 5 mlynedd. Mae Deddf 1997 hefyd yn rhoi grym i'r llys troseddol i osod gorchymyn ataliol neu'n rhoi grym i'r Uchel Lys neu'r llys sirol i gyhoeddi gwaharddeb.

Mae torri gwaharddeb neu orchymyn ataliol dan Ddeddf 1997 yn cario uchafswm cosb o 5 mlynedd.

CREULONDEB I BLANT

Ble fo'r dioddefydd dan 16 oed, gellir cyhuddo rhiant neu 'unigolyn sydd wedi cyrraedd 16 oed ac sydd â chyfrifoldeb dros' y plentyn sy'n ymosod, cam-drin, esgeuluso, gadael, neu'n amlygu'r plentyn neu'n achosi neu'n caffael eu bod yn cael eu hymosod, cam-drin, esgeuluso, gadael neu amlygu, mewn modd sy'n debygol o achosi dioddef neu anaf diangen i iechyd, gyda'r drosedd o greulondeb i blentyn dan adran 1 y Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933. Y gosb uchaf yw 10 mlynedd o garchar.

TROSEDDAU RHYWIOL

Yn ddibynnol ar amgylchiadau achos penodol ac oed y dioddefydd, gellir cyflawni amrywiol droseddau dan y Ddeddf Troseddau Rhyw 2003 (Deddf 2003). Mae gan Ddeddf 2003 nifer o droseddau sy'n delio â gweithgaredd rhywiol heb gydsyniad a mathau eraill o ymelwa rhywiol megis masnachu mewn pobl i, o fewn, neu allan o'r Deyrnas Unedig i ddibenion ymwela rhywiol. Er enghraifft, mae cyfathrach rhywiol (trwy dreiddiad pidynnol) heb ganiatâd yn drais ac yn denu uchafswm cosb o garchar am oes. Gellid ystyried ffurfiau llai difrifol o weithgaredd rhywiol heb gydsyniad, megis 'cyffwrdd' yn 'ymosodiad rhywiol' sydd ag uchafswm cosb o 10 mlynedd o garchar. Mae unigolyn yn cydsynio i weithgaredd rhywiol os yw'n cytuno trwy ddewis ac â'r rhyddid a gallu i wneud y dewis hwnnw. Mae unrhyw un sy'n cynorthwyo a chefnogi trosedd yn atebol i'r un gosb. Mae yna hefyd ystod o droseddau rhyw 'plant' ar gyfer achosion ble mae'r dioddefydd dan 16 oed. Er enghraifft, mae'n drosedd i achosi neu ysgogi plentyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol, neu i drefnu neu hwyluso comisiynu trosedd rhyw yn erbyn plentyn mewn unrhyw ran o'r byd, ac mae'r troseddau hyn yn cario cosbau uchaf o 14 mlynedd o garchar. Gellir hefyd cyflawni'r troseddau o fasnachu pobl i mewn i, o fewn neu allan o'r Deyrnas Unedig ar gyfer ymelwa rhywiol os trefnir teithiau'r dioddefydd gan gredu ei bod yn debygol y bydd trosedd berthnasol (megis trais rhywiol neu drosedd rhyw yn erbyn plentyn) yn cael ei gyflawni yn eu herbyn. Mae yna,

er enghraifft, awdurdodaeth alldiriogaethol ar gyfer pob trosedd rhyw yn erbyn plant (adrannau 5 – 15) dan Ddeddf 2003, os y'i cyflawnir gan wladolyn o'r Deyrnas Unedig, yn ogystal ag ar gyfer y prif droseddau rhyw (adrannau 1-4) ble mae'r dioddefydd dan 16 oed. Mae hyn yn golygu bod y troseddau hyn yn berthnasol i weithredoedd a gyflawnwyd tu allan i'r Deyrnas Unedig, p'un a ydynt yn cyfateb i drosedd yn y wlad ble y'i cyflawnwyd neu beidio. Ble mae'r troseddwr yn breswlydd o'r Deyrnas Unedig mae yna awdurdodaeth alldiriogaethol dros y troseddau hyn ble byddai'r ddeddf yn cyfateb i drosedd dan y gyfraith mewn grym yn y wlad ble digwyddodd.

BLACMEL

Mae blacmel yn drosedd sy'n groes i adran 21 y Ddeddf Lladrad 1968, y gellir ei gosbi gyda hyd at 14 mlynedd o garchar. Fe'i cyflawnir pan fydd unigolyn yn gwneud gorchymyn anawdurdodedig gyda bygythiad, gyda'r bwriad o sicrhau ennill iddo ei hun neu rywun arall neu gyda'r bwriad o achosi colled i unigolyn arall (gydag ennill neu golled yn cael ei ddehongli fel ymestyn yn unig i arian neu eiddo arall).

OPSIWN 2: GWNEUD GORFODI RHYWUN I BRIODI YN DRAMGWYDD TROSEDDOL

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw drosedd benodol o orfodi rhywun i briodi ac felly i benderfynu os yw'r weithred wedi digwydd, bydd yn rhaid ystyried un neu fwy o'r troseddau uchod. Gellid dadlau bod hyn yn gymhleth ac yn ddryslyd i'r rhai allai adnabod priodas dan orfod ond na fyddai'n adnabod bod y drosedd a gyflawnwyd yn rhywbeth arall yn llwyr (h.y. blacmel/aflonyddu ac ati). Gallai trosedd arall hefyd fod yn ataliad i'r teuluoedd hynny sy'n ceisio gorfodi rhywun i briodi yn erbyn eu hewyllys.

Felly ystyriaeth allweddol wrth greu tramgwydd troseddol yw a oes yna unrhyw ymddygiad a fyddai'n cyfateb i drosedd o'r fath nad yw eisoes wedi ei gynnwys dan dramgwyddau troseddol presennol. Mae bygythiadau realistig o drais, neu drais gwirioneddol – sydd wrth gwrs eisoes yn ffurfiau cydnabyddedig o ymddygiad troseddol – o bosibl ar un pen o'r sbectrwm: “byddaf yn dy ladd os nad wyt ti'n ei

briodi,” os y'i gwneir dan yr amgylchiadau cywir ble mae'r dioddefydd wedi credu i'r bygythiadau fod yn wir ac y gellid eu cyflawni, byddai'n ymddangos ei fod yn ateb y gofyniad. Ond ar y pen arall mae'n llawer anoddach gwybod ble ddylid troseddoli'r ymddygiad penodol. Er enghraifft, gallai rhiant fygwth mab sydd wedi beichiogi ei gariad gyda'i ddietifeddu os nad yw'n ei phriodi. Er y gallai'r bygythiad hwn fod yn real iawn, efallai na fyddai'r mab yn teimlo dan unrhyw bwysau i ildio i'r bygythiad hwn gan y gallai fod â dulliau eraill o gefnogi ei hun. Os nad yw'n ildio ond y gwneir y bygythiad, a ddylai'r rhieni fod yn euog o drosedd o geisio ei orfodi i briodi?

Awgrymiad arall a wneir weithiau yw y dylid cael trosedd o ddenu rhywun i briodas dan orfod. Ar wahân i'r mater o ba ymddygiad fyddai'n cael ei gipio nad yw eisoes yn droseddol, byddai angen diffinio'r drosedd yn ofalus. Felly, enghraifft o ymddygiad a allai fod yn drosedd yw pan fydd rhieni yn dweud bod nain yn agos at farwolaeth fel esgus i'r teulu deithio dramor i'w hymweld am y tro olaf os mai mewn gwirionedd y diben yw gorfodi rhywun i briodi a dim arall.

CWESTIYNAU

Rhowch wybodaeth atodol i gefnogi eich ymateb.

- A ydych chi'n credu bod y datrysiadau sifil a chosbau troseddol presennol yn cael eu defnyddio mor effeithiol ag y gallent i dacio priodi dan orfod? Os nad, beth arall ydych chi'n credu y gellid ei wneud i atal priodas dan orfod gan gynnwys sicrhau nad yw dioddefwyr yn cael eu hatal rhag adrodd?
- Ydych chi'n meddwl y gellir creu tramgwydd troseddol ar gyfer y weithred o orfodi rhywun i briodi yn erbyn eu hewyllys? Os felly, sut ydych chi'n meddwl y dylid diffinio'r drosedd?
- Pa faterion a ddylid eu hystyried i sicrhau nad yw trosedd newydd yn atal pobl rhag adrodd ar y drosedd?

- Ydych chi'n meddwl y dylid cael trosedd o ddenu rhywun dramor; denu rhywun i'r wlad hon neu yn wir o fewn y wlad hon; neu o un wlad i un arall i'r diben penodol o'u gorfodi i briodi?
- Pa mor bell ydych chi'n credu y mae amgylchiadau ac oed unigolyn yn dylanwadu ar eu hymagwedd/agwedd wrth geisio amddiffyniad/cyfiawnder?
- Ydych chi'n meddwl y byddai creu tramgwydd troseddol newydd yn gwneud y gyfraith yn fwy clir?
- Ydych chi'n meddwl y byddai creu tramgwydd troseddol newydd yn ei gwneud yn haws i weithwyr proffesiynol daclo'r broblem?
- Ydych chi'n meddwl y byddai troseddoli gorfodi rhywun i briodi yn newid barn y cyhoedd tuag at briodi dan orfod, yn arbennig yn y cymunedau hynny a effeithir fwyaf?

5. Grwpiau sydd wedi eu heffeithio gan yr ymgynghoriad hwn

Fe wyddom fod priodas dan orfod yn digwydd mewn nifer o wahanol gymunedau ledled Cymru a Lloegr. Dengys gwybodaeth a gasglwyd gan yr Uned Priodas Dan Orfod (1,735 o achosion ble mae'r FMU wedi rhoi cyngor neu gefnogaeth yn ymwneud â phriodas dan orfod posibl):

- bod priodas dan orfod yn effeithio ar fwy o fenywod na dynion – roedd 86% yn ymwneud â dioddefwyr benywaidd ac 14% yn ymwneud â dioddefwyr gwrywaidd (<0.5% yn anhysbys).
- bod yna nifer uwch o achosion ymysg cymunedau De Asiaidd. Gwledydd tarddiad: Pacistan (52%), Bangladesh (10.3%), India (8.6%), Affrica (5%), Twrci (1.7%), Iran (1.3%), Irac (1.2%), Affganistan (1%), a gwledydd eraill hysbys (9.3%). Roedd 14.6% o achosion yn llwyr gysylltiedig i'r Deyrnas Unedig neu o darddiad anhysbys.
- o'r 240 o achosion ble roedd oedran yn hysbys, roedd 64% yn ymwneud ag oedolion a 35.4% yn ymwneud â phlant dan oed (dan 18 oed). Roedd 13.5% yn ymwneud â phlant dan oed oedd yn 16 oed neu hŷn. O'r 1,735 o achosion ble mae'r FMU wedi darparu cymorth neu gefnogaeth ble roedd oed yn hysbys, roedd y dioddefydd hynaf yn 73 oed a'r ieuengaf yn 12.
- mewn 70 (4%) o'r achosion a ddygwyd i sylw'r FMU, roedd y dioddefydd yn anabl: (roedd gan 50 o ddioddefwyr anabledau dysgu, 17 anabledau corffol ac roedd gan 3 y ddau).
- roedd 36 (2%) o'r achosion a ddygwyd i sylw'r FMU yn ymwneud â dioddefwyr a nododd eu hunain fel Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol.

Parthed ceisiadau ar gyfer Gorchmynion Amddiffyn Priodas Dan Orfod: gwnaethpwyd 116 o geisiadau a 149 o orchmynion (gan eithrio gwarediadau eraill: trosglwyddiadau, ymgymeriadau) yn 2010. Roedd 105 o ymgeiswyr benywaidd ac 11 o ymgeiswyr gwrywaidd ac roedd 57 o ymgeiswyr dan 17.

Byddwn yn ystyried y dystiolaeth a gasglwyd trwy'r ymgynghoriad hwn er mwyn rhoi sylw dyledus i'r effaith y bydd yn cael ar wahanol grwpiau a sefydliadau a'r effaith bosibl ar y nodweddion gwarchoddedig (oed; anabled; aillbennu rhywedd;

beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil) er mwyn datblygu'r cynigion polisi terfynol.

CWESTIYNAU

- A oes gennych unrhyw ddata neu wybodaeth arall ar broffil demograffig pobl sy'n cael eu gorfodi i briodi neu sy'n gorfodi rhywun i briodi? Os felly, darparwch ddata neu ffynhonnell data.
- A ydych chi'n credu y byddai unrhyw un o'r cynigion yn cael effaith benodol ar bobl sydd o fewn un o'r nodweddion gwarchoddedig a restrir uchod? Os felly, rhowch fanylion.

6. Amserlen/camau nesaf

Bydd ymateb i'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Swyddfa Gartref.

Os, wedi ystyriaeth o'r ymatebion ymgynghori, mai dewis y Llywodraeth o'r ffordd ymlaen yw gwneud gorfodi rhywun i briodi yn dramgwydd troseddol, byddwn yn gweithio i ddatblygu'r opsiwn hwn i ymagwedd ffurfiol.

7. Gwybodaeth ymgynghori

CYFRINACHEDD AC YMWADIAD

Gellir trosglwyddo'r wybodaeth a anfonwch atom at gydweithwyr o fewn y Swyddfa Gartref, y llywodraeth neu asiantaethau cysylltiedig. Gall unrhyw wybodaeth a ddarparir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, fod yn amodol i'w gyhoeddi neu ddatgelu yn unol â chyfundrefnau mynediad i wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 [FOIA], y Ddeddf Diogelu Data 1998 [DPA] a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i wybodaeth arall a ddarparwch aros yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol fod yna Gôd Ymarfer dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n delio â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. O ganlyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod yr wybodaeth yr ydych wedi darparu i ni yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn cymryd i ystyriaeth eich esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, i fod yn rhwymol i'r Adran.

Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a, gan amlaf, bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydedd blaid.

COD YMARFER Y LLYWODRAETH AR YMGYNGHORI

Mae'r Ymgynghoriad hwn yn dilyn y Cod Ymarfer ar Ymgynghori – y cyflwynir y meini prawf ar ei gyfer isod:

Maen prawf 1 – Pryd i ymgynghori

Dylid ymgynghori'n ffurfiol yn ystod cam pan fydd cwmpas i ddylanwadu ar y deilliant polisi.

Maen prawf 2 – Hyd ymarferion ymgynghori

Dylai ymgynghoriadau barhau am o leiaf 12 wythnos fel arfer, gan roi ystyriaeth i gyfnodau hirach o amser ble fo'n ddichonadwy a synhwyrol.

Maen Prawf 3 – Eglurder cwmpas ac effaith

Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir am y broses ymgynghori, yr hyn sy'n cael ei argymhell, y cwmpas i ddylanwadu a chostau a buddiannau disgwylidig y cynigion.

Maen prawf 4 – Hygyrchedd ymarferion ymgynghori

Dylid cynllunio ymarferion ymgynghori i fod yn hygyrch i, ac wedi eu targedu'n amlwg at, y bobl y bwriedir eu cyrraedd.

Maen Prawf 5 – Baich ymgynghori

Mae cadw baich ymgynghori i isafswm yn hanfodol i sicrhau ymgynghoriadau effeithiol a chefnogaeth ymgynghoreion i'r broses.

Maen prawf 6 – Ymatebrwydd ymarferion ymgynghori

Dylid dadansoddi ymatebion ymgynghori yn ofalus a darparu adborth eglur i gyfranogwyr yn dilyn yr ymgynghoriad.

Maen prawf 7 – Gallu i ymgynghori

Dylai swyddogion sy'n rheoli ymgynghoriadau geisio arweiniad ar sut i gynnal ymarfer ymgynghori effeithiol a rhannu'r hyn a ddysgant o'r profiad.

Mae'r Cod Ymarfer ar Ymgynghori llawn ar gael yn: <http://www.bis.gov.uk/policies/better-regulation/consultation-guidance>

CYDLYNYDD YR YMGYNGHORIAD

Os oes gennych gŵyn neu sylw i'w roi ynglŷn ag ymagwedd y Swyddfa Gartref i ymgynghori, dylech gysylltu â Chydlynnydd Ymgynghori'r Swyddfa Gartref, Adam McArdle. PEIDIWCH ag anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn at Adam McArdle. Mae'r Cydlynnydd yn gweithio i hyrwyddo safonau arfer gorau a osodwyd gan y Cod Ymarfer, yn cynghori timau polisi ar sut i gyflawni ymgynghoriadau ac yn ymchwilio cwynion a wnaed yn erbyn y Swyddfa Gartref. Nid yw'n prosesu'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Gellir anfon e-bost at y cydlynnydd yn:
Adam.McArdle2@homeoffice.gsi.gov.uk neu
ysgrifennwch ato yn:

Adam McArdle
Cydlynnydd Ymgynghoriad
Y Swyddfa Gartref
Performance and Delivery Team
Better Regulation Team
3rd Floor Seacole
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

8. Crynodeb o'r cwestiynau ymgynghori

- A ydych chi'n credu y dylai'r model ar gyfer torri FMPOs ddilyn yr un ar gyfer torri gorchymynion peidio ag ymyrryd? Yn benodol:
 - a ddylai fod yn drosedd i dorri unrhyw/yr holl ddarpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y gorchymyn; heb fod angen unrhyw rym arestio;
 - os yw'r CPS yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i ddarparu gobaith realistig o euogfarn droseddol, neu os nad yw'r erlyniad er lles y cyhoedd, a ddylai dioddefwyr barhau i gael y dewis i ddychwelyd yr achos i draddodi yn y llys sifil; a
 - pa gosb ddylai fod yn gymhwysol ar gyfer yr uchafswm dedfryd am dorri FMPO (yng Nghymru a Lloegr mae torri gorchymyn peidio ag ymyrryd neu orchymyn ataliol ar hyn o bryd yn denu uchafswm dedfryd o bum mlynedd).
- A ydych chi'n meddwl bod yna fodel arall, e.e. yn yr Alban neu unrhyw awdurdodaeth arall, a fyddai'n fwy addas?
- A ydych yn credu y dylai ymatebwyr eraill a enwir a oedd yn gwybod bod gorchymyn wedi ei dorri ond na wnaeth ddim hefyd fod yn atebol am erlyniad neu dorri gorchymyn? Esboniwch eich ateb. Os felly, pa lefel o gynhwysiad ddylai ddenu erlyniad o'r fath? Pa raddfa o gosbau a ddylid eu defnyddio?
- Pa fecanweithiau, os o gwbl, ydych chi'n teimlo fyddai'n cynorthwyo dioddefwyr a thystion, yn arbennig yr ifanc, i ddatgelu torri gorchymyn? Esboniwch eich ateb.
- A ydych chi'n teimlo bod angen sicrhau unrhyw fecanweithiau eraill, yn ogystal â'r mesurau arbennig presennol (e.e. recordio datganiadau fideo, cysylltiadau byw, sgriniau) yn y llys i helpu dioddefwyr a thystion i briodas dan orfod, yn arbennig yr ifanc, trwy'r broses gyfiawnder droseddol unwaith y bydd achosion erlyniad troseddol wedi cychwyn? Os felly, esboniwch eich ateb, gan roi enghreifftiau o'r mathau o fecanweithiau ac adnoddau sydd eu hangen.
- A ydych chi'n credu bod y datrysiadau sifil a chosbau troseddol presennol yn cael eu defnyddio mor effeithiol ag y gallent i daclo priodi dan orfod? Os nad, beth arall ydych chi'n credu y gellid ei wneud i atal priodas dan orfod gan gynnwys sicrhau nad yw dioddefwyr yn cael eu hatal rhag adrodd?
- Ydych chi'n meddwl y gellir creu tramgwydd troseddol ar gyfer y weithred o orfodi rhywun i briodi yn erbyn eu hewyllys? Os felly, sut ydych chi'n meddwl y byddai'r drosedd yn cael ei diffinio?
- Pa faterion a ddylid eu hystyried i sicrhau nad yw trosedd newydd yn atal pobl rhag adrodd ar y drosedd?
- Ydych chi'n meddwl y dylid cael trosedd o ddenu rhywun dramor; denu rhywun i'r wlad hon neu yn wir o fewn y wlad hon; neu o un wlad i un arall i'r diben penodol o'u gorfodi i briodi?
- Pa mor bell ydych chi'n credu y mae amgylchiadau ac oed unigolyn yn dylanwadu ar eu hymagwedd/agwedd wrth geisio amddiffyniad/cyfiawnder?
- Ydych chi'n meddwl y byddai creu tramgwydd troseddol newydd yn gwneud y gyfraith yn fwy clir?
- Ydych chi'n meddwl y byddai creu tramgwydd troseddol newydd yn ei gwneud yn haws i weithwyr proffesiynol daclo'r broblem?
- Ydych chi'n meddwl y byddai troseddoli gorfodi rhywun i briodi yn newid barn y cyhoedd tuag at briodi dan orfod, yn arbennig yn y cymunedau hynny a effeithir fwyaf?
- A oes gennych unrhyw ddata neu wybodaeth arall ar broffil demograffig pobl sy'n cael eu gorfodi i briodi neu sy'n gorfodi rhywun i briodi? Os felly, darparwch ddata neu ffynhonnell data.
- A ydych chi'n credu y byddai unrhyw un o'r cynigion yn cael effaith benodol ar bobl sydd o fewn un o'r nodweddion gwarchoddedig a restrir uchod? Os felly, rhowch fanylion.



Swyddfa Gartref

ISBN: 978-1-84987-628-5

Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref

© Hawlfraint y Goron 2011